# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Cadeirydd), Brian Blakeley (Is-Gadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Hugh Irving, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Cwsmeriaid (HW); Moderneiddio a Lles (SE); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Swyddog Monitro (RGW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (LR); Prif Beiriannydd: Rheoli Risg Llifogydd (WH); Rheolwr Rhaglen: Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (MH); Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (VA); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP); Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru (KI) a Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr I.W. Armstrong, P.C. Duffy, H.H. Evans, T.R. Hughes, E.A. Jones a P.W. Owen.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd D.Simmons yn ei ôl yn dilyn triniaeth feddygol ddiweddar, a dymunodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor yn dda i'r Cyn-Gynghorydd Richard Jones oedd yn sâl ar hyn o bryd.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Cynghorydd H.H. Evans yn mynychu seremoni graddio ei ferch ac na fyddai'n gallu mynychu'r cyfarfod.

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai'n gadael cyn diwedd y cyfarfod i fynychu Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol yn Llangollen a byddai'r Is-Gadeirydd, y Cynghorydd B.Blakeley, yn cadeirio gweddill y cyfarfod.

Cytunodd yr Aelodau y dylid anfon llythyr at achubwyr bywyd y Rhyl Joshua Clough a Simon Casey, i ddiolch iddynt am eu gwroldeb a'u dewrder wrth gynorthwyo i achub aelod o'r cyhoedd.

Llongyfarchodd y Cadeirydd a'r Aelodau y Cynghorydd M.Ll. Davies ar gael ei benodi'n Gadeirydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganodd unrhyw Aelod gysylltiad personol neu ragfarnllyd i unrhyw fater sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitem y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, ar gyfer cyfnod 30 Mai 2013 nes 24 Mehefin 2013 wedi'u cylchredeg gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Darparodd y Cadeirydd grynodeb o'r digwyddiadau canlynol:-

31 Mai 2013. Gŵyl Gerddorol Ryngwladol Gogledd Cymru - fel Cefnogwr Anableddau Dysgu, eglurodd y Cadeirydd y byddai cyngerdd yn cael ei gynnal yng Nghadeirlan Llanelwy ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu. Cadarnhaodd bod rhodd o £1,000 wedi'i roi tuag at y digwyddiad o gronfa'r Cadeirydd a £1,000 pellach ar gyfer costau cludiant.

14 Mehefin 2013. Aeth y Cadeirydd i Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan, i ddechrau taith feicio a chyflwynodd siec o £100 tuag at ddarparu robot i gynnal llawdriniaeth twll clo.

20 Mehefin 2013. Diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd yn rhan o Ŵyl Celfyddydau Perfformio Ysgolion Sir Ddinbych, a gynhaliwyd dros gyfnod o bedair noson, am ddarparu digwyddiad ardderchog.

26 Mehefin 2013. Fel Llywodraethwyr Ysgol Brondyffryn a Gerddi Glasfryn Dinbych, roedd y Cadeirydd a'r Cynghorydd R.J. Davies, wedi ymweld â'r ysgol i longyfarch y staff am yr adroddiad ysgol ardderchog yn dilyn ymweliad annisgwyl gan arolygwyr ysgolion.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid nodi a derbyn y rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, a dylid nodi sylwadau'r Cadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2013.

***PENDERFYNWYD –*** *derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2013 fel cofnod cywir.*

**6 ADRODDIAD YMCHWILWYR Y LLIFOGYDD**

Roedd copi o adroddiad gan Uwch Beiriannydd: Rheoli Risg Llifogydd, oedd yn darparu manylion canfyddiadau archwiliad y llifogydd, a diweddariad o gynnydd yr archwiliad i ddigwyddiad llifogydd Glasdir, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd D.I. Smith a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (CDECA). Cadarnhawyd fod yr archwiliad i'r llifogydd ledled Sir Ddinbych ym mis Tachwedd 2012, wedi'i gwblhau gan eithrio Glasdir, lle yr oedd cymhlethdod y materion yn ymwneud â'r digwyddiad llifogydd yn golygu bod yr archwiliad yn parhau.

Roedd cryn dipyn o lifogydd mewn 12 lleoliad gwahanol ledled Sir Ddinbych ar 26 a 27 Tachwedd 2012 gyda thua 500 o adeiladau wedi'u heffeithio. O dan amodau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 roedd y Cyngor wedi cynnal archwiliad i achosion y llifogydd ac roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cefnogi'r archwiliad. Tarddiad y llifogydd oedd y prif afonydd, a Chyfoeth Naturiol Cymru oedd yr Awdurdod rheoli risg ar gyfer y rhain, a chyrsiau dŵr cyffredin, a Sir Ddinbych oedd yr Awdurdod rheoli risg ar gyfer y rhain.

Trefnwyd adrodd am yr ymchwiliad i'r Cyngor ym mis Mai ond roedd wedi ei ohirio oherwydd cymhlethdod a maint archwiliad dau ddigwyddiad llifogydd mawr yn Llanelwy a Glasdir. Roedd archwiliad digwyddiad Llanelwy wedi'i gwblhau a'i grynhoi yn Atodiad 2. Byddai adroddiad llawn Glasdir yn cael ei ohirio nes fis Medi ac mae cylch gorchwyl yr archwiliad wedi'i atodi fel Atodiad 1.

Diben yr archwiliad oedd egluro rhesymau'r llifogydd, tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto a beth y gellir ei wneud i reoli risg llifogydd yn briodol yn y dyfodol. Roedd meini prawf ar gyfer cytuno lleoliad i archwilio'r deg safle yn cynnwys:

- Un neu fwy o adeiladau gyda llifogydd mewnol
- Aflonyddu isadeiledd hanfodol e.e. ffyrdd neu wasanaethau.
- Yr uchod 'bron' ag ailadrodd.

Penderfynwyd peidio â chynnwys llifogydd cyffredinol tir amaethyddol fel rhan o'r ymchwiliad oni bai bo'r digwyddiad llifogydd yn anarferol neu'n annisgwyl. Fodd bynnag, byddai effaith llifogydd ar dir amaethyddol yn cael ei drafod ar lefel genedlaethol.

Mae archwiliad llifogydd y rhan fwyaf o leoliadau wedi'u cyflawni ar y cyd gan Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru. Oherwydd cymhlethdod y digwyddiadau yng Nglasdir, roedd archwilwyr annibynnol wedi'u comisiynu i gynnal yr archwiliad i lifogydd y lleoliad hwn. Gofynnwyd i'r Archwilwyr Annibynnol adolygu canfyddiadau archwiliad y Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer holl leoliadau llifogydd eraill ac roedd y rhain yn cynnwys:-

- Llanelwy, gan gynnwys Ffordd Isaf Dinbych
- Rhuddlan gan gynnwys Lôn Sarn
- Y Brwcws, Dinbych
- Llanynys
- Gellifor
- Glasdir, Rhuthun
- Park Place/ Stryd Mwrog/Maes Ffynnon, Rhuthun
- Llanbedr Dyffryn Clwyd
- Loggerheads
- Corwen
- Glyndyfrdwy

Mae adroddiad yn cynnwys canfyddiadau'r archwiliad wedi'i gynnwys fel Atodiad 2. Mae'r gwaith archwilio llifogydd wedi'i gydlynu gan Weithgor Archwilio Llifogydd yn cynnwys swyddogion y Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Cefnffyrdd. Hyd yn hyn, mae tri briff budd-ddeiliad wedi'u cyflwyno ac mae'r rhain wedi'u cynnwys er gwybodaeth yn Atodiad 3. Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd gyda chynrychiolwyr trigolion yn y ddau leoliad mwyaf y llifogydd yng Nglasdir a Llanelwy.
Roedd Sir Ddinbych wedi ystyried mesurau dros dro i leihau risg llifogydd wrth aros am ganlyniad yr archwiliad. O ganlyniad, mae'r gwaith canlynol wedi'i gyflawni:
- Gosod falfiau un ffordd gwrth-llifogydd ar ddraeniau dŵr yr arwyneb yn y Brwcws, Dinbych.
- Yng Nglasdir, tynnu rhwyllau diogelwch ar geuffos 5 bocs, gosod medrydd dŵr telemetreg dros dro yn sianel y geuffos ac adeiladu llawr caled uwch ben y geuffos i alluogi mynediad i dynnu malurion yn ystod llifogydd.

Gall cost gweithredu'r argymhellion mewn perthynas â llifogydd cyrsiau dŵr cyffredin fod hyd at £1m, ac ni ellir cynnwys hyn yng nghyllideb gyfredol y Cyngor. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi amcangyfrif y byddai cynllun i leihau risg llifogydd yn Llanelwy i lefel dderbyniol yn costio dros £5 miliwn. Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r farn bod Sir Ddinbych yn gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru bod blaenoriaeth ddigonol yn cael ei roi i gyllid cynnar cynigion Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â Llanelwy, ac unrhyw argymhellion eraill o'r archwiliad mewn perthynas â phrif afonydd. Eglurodd y Cynghorydd D.I. Smith fod gan Lywodraeth Cymru bwerau i ddyrannu grant o dan Ddeddf Draenio Tir a chadarnhaodd y byddai'r argymhellion yn cael eu dilyn ar unwaith. Hysbysodd yr Aelodau ei fod wedi cyflwyno sylwadau i'r Gweinidog yn gofyn am gyllid Llywodraeth Cymru.

Roedd yr ymchwiliad yn nodi gwaith bychan y gellir eu cwblhau yn amodol ar argaeledd cyllid, yn y mannau lle nad oedd amddiffynfeydd llifogydd yn briodol gellir ystyried amddiffynfeydd ar gyfer adeiladau unigol. Roedd y CDECA yn amlinellu argymhellion cyffredinol i ddelio â materion ehangach rheoli risg llifogydd oedd yn cynnwys gweithio gyda pherchnogion adeiladau unigol, perchnogion tir ac, yn amodol ar gymeradwyaeth, sefydlu Partneriaeth Rheoli Afonydd, a groesawyd gan y Cynghorydd T.M. Parry.

Cadarnhawyd fod y tri Briff Budd-ddeiliaid wedi'u cyflwyno i rannu gwybodaeth gyda phartïon sydd â diddordeb, roedd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd wedi'u cynnal gyda

thrigolion yng Nglasdir, dau gyfarfod gyda chynrychiolwyr trigolion yn Llanelwy a thrafodwyd canfyddiadau dros dro'r archwiliad gan Bwyllgor Archwilio Cymunedau.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd W.L. Cowie, eglurodd CDECA fod yr archwiliad wedi nodi fod y bont yn Spring Gardens, Llanelwy heb achosi’r llifogydd. Fodd bynnag, nodwyd fod y bont wedi cyflwyno rhwystr ar yr afon ac wedi cael effaith. AAmlinellwyd manylion y dewisiadau tymor hir a thymor byr sy’n cael eu hystyried i ddatrys y materion a nodwyd gan Gynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn y tymor byr roedd y rhain yn cynnwys tynnu coed a llystyfiant, codi uchder arglawdd llifogydd dros dro a darparu rhaglen cynnal a chadw. Roedd y datrysiadau tymor hir yn cael eu hasesu ond roeddent yn debygol o gynnwys peirianwaith helaeth. Cadarnhaodd CDECA bod gwahoddiad agored wedi’i rannu gyda’r trigolion lleol i ddarparu a chyflwyno tystiolaeth all gynorthwyo archwiliad llifogydd.

Pwysleisiodd y Cynghorydd D.Owens bwysigrwydd derbyn ymateb prydlon i’r argymhellion sy’n codi o’r archwiliad, yn enwedig ar effaith y bont yn Spring Gardens. Fe amlygodd bod angen darparu cymorth i drigolion lleol mewn perthynas â gwaith a wnaed yn eu hadeiladau.

EEglurodd yr Uwch Beiriannydd: Rheoli Risg Llifogydd i’r Cynghorydd A.Roberts nad oedd agwedd diogelwch pont Rhuddlan yn fater yn ystod y llifogydd. Mae gwaith archwilio wedi’i gynllunio i asesu cynhwysedd traffig y bont, a byddai hyn yn cynnwys archwiliad sgwrio o sylfeini’r bont. Eglurodd hefyd, gan ystyried effaith datblygiad tai arfaethedig ar Lôn y Sarn ar ddraenio dŵr, y byddai'r amodau cynllunio priodol yn cael eu gosod. Darparodd y Cynghorydd J.A. Davies fanylion adroddiad a dderbyniwyd o Adain Pontydd a Strwythurau mewn perthynas â phont Rhuddlan, ac amlygodd farn CADW a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.Ll. Davies, darparodd Gynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru fanylion prosiect amddiffyn eiddo unigol, wedi'i noddi gan Lywodraeth Cymru, a gall gynnwys eiddo ar Lôn Isaf Dinbych, Llanelwy.

Mewn ymateb i gais gan y Cadeirydd a phryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd R.J. Davies, cytunodd y Cynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru y gellir darparu canolfan alw draw i dderbyn barn trigolion ardal Y Brwcws yn Ninbych. Fe ymatebodd i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd S.A. Davies a chadarnhaodd na fyddai arian yn cael ei symud fel rhan o'r astudiaeth i reoli cwrs Afon Dyfrdwy.

Ymatebodd CDECA i gwestiwn gan y Cynghorydd B.A. Smith a darparodd fanylion goblygiadau cyllideb. Eglurodd y byddai'r prif oblygiadau ariannol sy'n codi o archwiliad llifogydd yn effeithio ar Gyfoeth Naturiol Cymru yn bennaf. Eglurodd yr Uwch Beiriannydd: Rheoli Risg Llifogydd fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun i gefnogi Awdurdodau Lleol gyda chostau delio gydag argyfwng. Fodd bynnag, oni chyrhaeddir trothwy cymhwyso, byddai'n rhaid i'r Cyngor dderbyn y costau. Gyda rhagfynegiad y bydd llifogydd yn digwydd yn amlach yn y dyfodol, bydd y gost i’r Cyngor yn debygol o gynyddu. Cytunodd CDECA gyda’r awgrym y gellir cysylltu Cynlluniau Llifogydd Cymunedau gyda Chynlluniau Tref.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd H. Hilditch-Roberts ynglŷn â gweithredu mesurau ataliol a datblygu strategaeth atal llifogydd, eglurodd CDECA fod yr Uwch Beiriannydd: Rheoli Risg Llifogydd ar hyn o bryd yn diweddaru a datblygu Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor a byddai'n cael ei gyflwyno i Archwilio i'w ystyried cyn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol.

Yn ystod y drafodaeth, cytunodd yr Aelodau y dylai Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio fonitro cynnydd archwiliad llifogydd yn rheolaidd.

Mynegodd nifer o Gynghorwyr eu gwerthfawrogiad, a diolch ar ran trigolion lleol, am ymateb Sir Ddinbych i'r llifogydd. Diolchodd yr Aelodau i staff yr holl sefydliadau a gwirfoddolwyr a ddarparodd gymorth yn ystod y llifogydd ac wedi'r llifogydd yn yr amrywiol ardaloedd yn y Sir.

**PENDERFYNWYD –** fod y Cyngor yn cytuno:-

*(a) gweithredu'r argymhellion a nodir yn Atodiad 2.*
*(b) y gwneir ymdrech ar y cyd gan Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid i weithredu'r argymhellion.*
*(c) fod Sir Ddinbych yn cefnogi sefydlu Partneriaeth Rheoli Afonydd, gan uno'r holl bartneriaid perthnasol i ddatblygu cynllun rheoli risg llifogydd.*
*(d) derbyn Rhan 2 Adroddiad yr Archwiliad, yn ymwneud â Glasdir, yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 10 Medi 2013, a*
*bod Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio yn monitro cynnydd yn rheolaidd.*

## 7 DRAFFT STRATEGAETH UCHELGAIS ECONOMAIDD A CHYMUNEDOL

Roedd copi o adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (CDECA), ar ddatblygiad Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol gyntaf Sir Ddinbych, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd H.Ll. Jones adroddiad ar ran yr Arweinydd ac eglurodd fod Grŵp Tasg a Gorffen wedi datblygu Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol gyntaf Sir Ddinbych, yn unol â blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol i ddatblygu'r economi leol. Gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer drafft y Strategaeth i'w ddarparu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus fel y manylir yn yr adroddiad.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi Datblygu'r Economi Leol fel un o'r 7 blaenoriaeth gorfforaethol. Mae adfywio'r economi leol wedi'i nodi fel pryder allweddol gan y trigolion lleol yn ystod datblygu'r Cynllun Corfforaethol ac yn cael ei ystyried fel modd o greu sylfaen cadarn ar gyfer yr holl ddatblygiadau eraill. Roedd y Strategaeth yn ceisio egluro sut y byddai'r Cyngor yn diwallu'r amcan corfforaethol ar gyfer datblygu'r economi, ac mae manylion y Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

Roedd y Strategaeth ddrafft wedi'i datblygu gan ganolbwyntio ar fuddiannau a chanlyniadau ac mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi cytuno y dylai'r trigolion lleol

deimlo’r budd cyffredinol i'w gyflawni o ddatblygu'r economi leol. Mae’r amcan cyffredin tu cefn i’r strategaeth wedi’i ddiffinio fel:-

“Mae Sir Ddinbych yn Sir gyda lefelau uchel o gyflogaeth a lefelau da o incwm yn ei holl drefi a'r cymunedau".

O hyn, roedd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi creu'r Datganiad Gweledigaeth ganlynol ar gyfer Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych:-

- Datblygu Cyfleoedd, Creu Hyder
- Gweithio gyda’n gilydd i wneud Sir Ddinbych yn lle y gall:-

- Busnesau, sefydledig a newydd, dyfu a ffynnu
- Ein trefi a'n cymunedau fod yn brysur a ffynnu
- Trigolion fwynhau ansawdd da o fywyd a chyfrannu yn yr economi leol.

Er mwyn cyflawni hyn byddai’n rhaid mynd i'r afael â'r ffactorau craidd a nodwyd y meysydd blaenoriaeth canlynol i'w gweithredu ac i ffurfio strwythur creiddiol y Strategaeth:-

- Yr Isadeiledd cywir ar gyfer twf
- Busnesau sy’n cael eu Cefnogi a’u Cysylltu
- Gwneud y gorau o Gryfderau/Cyfleoedd Economaidd
- Gweithlu Medrus o Ansawdd Da
- Trefi a Chymunedau Llewyrchus
- Sir Ddinbych wedi ei hyrwyddo’n dda

Mae Cynllun Darparu 4 blynedd ddangosol hefyd wedi ei ddatblygu sy'n cyfateb ag amserlen cyflawni’r Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, roedd gan y Strategaeth ei hunan derfyn amser hirach ac yn cynnwys cyfnod 2013 i 2023. Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi penderfynu bod y canlyniadau a nodwyd a’r meysydd gweithredu a amlygwyd yn cynnig y dull gorau o gyflawni'r Strategaeth a'r Cynllun Corfforaethol. Argymhellwyd ein bod yn profi’r rhain drwy ymgynghori gyda chymunedau a busnesau Sir Ddinbych cyn cyflwyno’r Strategaeth i'w fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor.

Eglurodd CDECA y dylid darparu drafft y Strategaeth a Chynllun Darparu, Atodiad 1, i ymgynghori gyda'r cyhoedd yn ystod mis Gorffennaf ac Awst drwy amrywiaeth o gyfleoedd fel y manylir yn Atodiad 2. Mae manylion y broses ymgynghori wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Bydd digwyddiadau ymgynghori penodol yn archwilio'r Strategaeth yn fanwl mewn perthynas â Thwristiaeth, Rhannau Blaenoriaeth ar gyfer Twf, a Datblygiad Economaidd Gwledig. Byddai’r rhain yn cael eu hategu gan ddigwyddiadau ymgynghori cyffredinol fydd yn cael eu trefnu'n ddaearyddol ledled y Sir.

Roedd y tri chwestiwn allweddol y byddai’r ymgynghoriad yn ceisio derbyn barn arnynt yn cynnwys:-

(a) A yw’r Weledigaeth, y canlyniadau bwriedig a’r egwyddorion creiddiol yn addas ar gyfer Sir Ddinbych?

(b) A yw’r Strategaeth yn cynnwys y materion pwysig, yr heriau a’r cyfleoedd sy’n effeithio ar economi leol Sir Ddinbych?

(c) A fydd prif gamau gweithredu’r Cynllun Darparu yn cael yr effaith cywir?

Byddai angen i'r Grŵp Tasg a Gorffen ystyried canlyniadau'r ymgynghori cyn y gellir cyflwyno Strategaeth Economaidd a Chymunedol, Cynllun Darparu a Fframwaith Perfformiad i'r Cyngor i'w cymeradwyo'n ffurfiol fis Hydref.

Yn dilyn cymeradwyo'r Strategaeth, byddai arolygiaeth y ddarpariaeth yn cael ei ddarparu gan Fwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Byddai'n monitro cynnydd ac effaith, rhoi cymorth i ddatrys problemau a rhwystrau darparu a byddai'n argymell newidiadau fel bo'r angen yn ystod cyfnod y Strategaeth er mwyn sicrhau fod yr effaith a ddymunir yn cael ei gyflawni. Rôl allweddol ar gyfer y Bwrdd Rhaglen fyddai sicrhau fod y prosiectau a'r gweithgareddau yn darparu'r buddiannau bwriedig. Mae gwybodaeth bellach ar gyfansoddiad a swyddogaeth y Bwrdd Rhaglen, yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r trefniadau llywodraethu, ar gael yn y Strategaeth ddrafft.

Eglurodd CDECA fod y Cynllun Corfforaethol wedi nodi £2m fel dyraniad tuag at gostau gweithredu Blaenoriaeth Gorfforaethol yr Economi gyda £160mil wedi'i ddyrannu yng nghyllideb 2013/14. Mae'r adroddiad ac Atodiad 2 yn gosod cynigion ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol y Strategaeth a'r Cynllun Darparu arfaethedig a bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal yn ystod yr haf.

Roedd y Prif Weithredwr yn cefnogi'r Strategaeth a'i ymagwedd gynhwysfawr oedd yn egluro rôl Sir Ddinbych ac yn galluogi'r Awdurdod i gael effaith bositif ar yr economi leol. Byddai Sir Ddinbych yn awr mewn sefyllfa i gynnig arweiniad ac annog busnesau a phartneriaid i ymroi a chyfranogi. Eglurodd na ddylid tanbrisio'r her o annog partneriaid i gyfranogi a chadarnhaodd y byddai ansawdd y ddarpariaeth a lefel y llwyddiant yn cael ei fesur gan nifer y partneriaid sy'n cael eu cadarnhau. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd lleihau canran disgyblion sy'n gadael ysgolion heb gymwysterau cofrestredig ac nad oeddent yn ymgysylltu'n ddefnyddiol ar ôl gadael yr ysgol. Pwysleisiodd er ei fod yn falch o'r cynnydd a wnaed yn gyffredinol roedd nifer o heriau sylweddol o'u blaen o ran ymgysylltu.

Darparodd y CDECA'r ymatebion canlynol i faterion a phryderon a fynegwyd gan yr Aelodau:-

- Eglurwyd eu bod wedi gofyn am enwebiadau a'r Cynghorydd H.Ll. Jones oedd unig gynrychiolydd o Grŵp Ardal Aelodau Dyffryn Dyfrdwy yn y Grŵp Tasg a Gorffen. Cadarnhawyd y byddai'r broses ymgynghori ledled y Sir ac y byddai materion sy'n codi ledled y Sir yn cael eu nodi.
- Roedd Sir Ddinbych fel Cyngor hawdd i ddelio â hwy yn thema allweddol yn ystod trafodaeth y Grŵp Tasg a Gorffen. Roedd o leiaf pedwar gweithred benodol wedi'u nodi yn y Cynllun Darparu oedd yn cynnwys materion o ran caffael, rheoleiddio, mynediad hawdd at ddarpariaeth cefnogi busnes a datblygu diwylliant cyfeillgar i fusnesau.
- Llywodraethu symud y strategaeth yn ei blaen. Roedd y strategaeth yn cynnig aelodaeth gychwynnol ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol
- Cafwyd cadarnhad fod gwaith sylweddol wedi'i gyflawni metrig i gefnogi'r strategaeth a'r gweithredoedd, ac y bydd y manylyn hwn yn cael ei gynnwys yn hwyrach ymlaen.
- Darparwyd manylion gwaith i wella effaith leol proses gaffael y Cyngor, a chyfeiriwyd yn benodol at ymgysylltiad busnesau lleol ac ehangu cyfleoedd cyflogaeth.

- Amlinellwyd rôl Taith mewn perthynas â strategaeth Cludiant ar gyfer yr ardal ac isadeiledd cludiant y Sir.
- Mewn ymateb i bryder a fynegwyd ynglŷn ag amseru a therfynau amser y cyfnod ymgynghori yn ystod yr haf, darparodd Rheolwr y Rhaglen fanylion y broses ymgynghori hyd yn hyn ac fe gadarnhaodd fod drafft y strategaeth wedi'i chylchredeg i'r partïon perthnasol.
- Hysbyswyd yr aelodau y byddai deunydd hysbysebu yn cael eu harddangos mewn digwyddiadau megis yr Eisteddfod a Sioe Dinbych a Fflint. Cadarnhaodd CDECA y byddai stondin Ffederasiwn Busnesau Bach yn Sioe Dinbych a Fflint.

Yn ystod y drafodaeth, diolchodd y Cynghorydd H.Ll. Jones a CDECA i'r swyddogion a'r Aelodau am y gwaith caled a wnaed i gynhyrchu drafft Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol.

**PENDERFYNWYD –** fod y Cyngor:-

*(a)* yn nodi'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen i baratoi drafft Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol fel yr atodir yn Atodiad 1, a
(b) chymeradwyo'r Strategaeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf fel y nodir yn Atodiad 2

## 8 SEFYLLFA DERFYNOL Y GYLLIDEB A'R ALLDRO REFENIW 2012/13

Roedd copi o adroddiad gan y Prif Gyfrifydd, oedd yn darparu diweddariad sefyllfa derfynol refeniw a thriniaeth arfaethedig balansau, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad alldro terfynol wedi'i dderbyn gan y Cabinet ar 25 Mehefin 2013. Roedd yr adroddiad yn darparu manylion y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol er mwyn i'r Cyngor Sir ystyried a chymeradwyo triniaeth yr arian wrth gefn a'r balansau arfaethedig. Byddai drafft cyntaf Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2012/13 yn cael ei gyflwyno i'r archwilwyr allanol ar 28 Mehefin, ac yna byddai'r cyfrifon wedi'u harchwilio yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

Y sefyllfa alldro ariannol gyffredinol ar gyfer 2012/13 yw i'r Cyngor dan wario yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd ac iddo weld cynnydd yn arenillion Treth y Cyngor, ac mae hynny'n cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor. O ganlyniad roedd modd gwneud argymhellion i symud yr arian i gronfeydd wrth gefn penodol i gynorthwyo'r Cyngor i ddelio â phwysau ariannol trwm dros y blynyddoedd nesaf a dechrau sefydlu adnoddau ariannol i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r ffigyrau Alldro Refeniw terfynol yn Atodiad 1. Sefyllfa derfynol cyllideb y gwasanaethau a'r gyllideb gorfforaethol yw tanwariant o £1.525 miliwn.

Roedd sefyllfa alldro cyllideb y gwasanaethau a'r gyllideb gorfforaethol £530 mil yn uwch na'r hyn a gafodd ei adrodd wrth y Cabinet ym mis Mawrth. Roedd y symudiad mwyaf arwyddocaol o fewn Gwella a Chynhwysiant Ysgolion (£223 mil). Mae sefyllfa derfynol Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wedi gwella o £76 mil ac mae sefyllfa'r cyllidebau corfforaethol wedi gwella o £113 mil ers y rhagolwg

a gafodd ei adrodd ym mis Mawrth. Mae'r gwasanaethau'n parhau i fod yn rhagweithiol wrth gynllunio ar gyfer arbedion yn y blynyddoedd sydd i ddod, a dechreuwyd weld effaith ariannol rhai o'r cynigion hynny ar waith tuag at ddiwedd 2012/13. Rhoddodd wasanaethau wybod am ymrwymiadau yn erbyn balansau o £849 mil ym mis Mawrth. Roedd y mwyafrif o'r balansau wedi eu rhagweld oherwydd materion amseru ac mae balansau ymrwymedig y gwasanaethau bellach yn £1.139 miliwn ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn yr adroddiad.

Roedd gwariant ar ysgolion yn £1.069m yn llai na'r gyllideb a ddyrannwyd gydag Ysgolion Arbennig wedi gwella o £490mil. Roedd ffactorau yn ymwneud â symudiad yr Ysgolion Arbennig wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Roedd balansau ysgolion yn £2.870m ac roedd manylion y balansau wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.

Cyllidebodd y cyngor ar gyfer gwneud cyfraniad o £300 mil i'r balansau sydd, yn gyson ag adroddiadau blaenorol, yn dybiaeth o fewn y sefyllfa alldro terfynol. Cyllidebodd y cyngor ar gyfer gwneud cyfraniad i ariannu'r Cynllun Corfforaethol a oedd angen oddeutu £25 miliwn o arian parod a £52 miliwn o fenthyciad er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r Cyngor. Yng nghyllideb 2012/13, roedd tybiaeth y byddai £2.073 yn cael ei gynhyrchu trwy fod arian blaenoriaeth wedi'i ddyrannu i wasanaethau a thrwy fod darpariaethau wedi eu cyllidebu o fewn cyllidebau corfforaethol.

Roedd gwybodaeth bellach ynglŷn ag alldro terfynol y gwasanaeth wedi'i fanylu yn yr adroddiad fel a ganlyn:-

Cynllunio Busnes a Pherfformiad – y sefyllfa derfynol yw tanwariant o £60mil.
Cyllid ac Asedau – tanwariant o £16mil.
Priffyrdd ac Amgylchedd – sefyllfa o danwariant o £278mil, gwelliant o £15mil o'r hyn a ragwelwyd ym mis Mawrth.
Cynllunio a Rheoleiddio – cynnig i'w ddefnyddio i gyllido costau ailstrwythuro fel rhan o gyflawni arbedion ar gyfer 2013/14.
Gwasanaeth Oedolion a Busnes - wedi cyflawni eu cyllideb.
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd – adroddwyd ei fod yn £148 mil.
Tai a Datblygu Cymunedol - oherwydd i adolygiad o ariannu trwy grantiau allanol ar ddiwedd y flwyddyn amlygu costau ychwanegol y gellir eu hawlio.
Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden – roedd y sefyllfa alldro terfynol yn danwariant o £37.5 mil
TGCh/Trawsnewid Busnes – y gyllideb yn £108 mil yn is.
Cwsmeriaid a Chymorth Addysg – tanwariant o £245 mil.
Gwella Ysgolion – tanwariant o £349mil.
Treth y Cyngor – wedi'i effeithio gan nifer yr anheddau yn y Sir, ynghyd â lefel uchel o gasglu trethi o dros 98%. Roedd lefel derfynol enillion Treth y Cyngor £315mil yn uwch na'r amcangyfrifiad gwreiddiol.

Oherwydd sefyllfa gyffredinol y gwasanaethau, cynigwyd fod yr adrannau yn dwyn unrhyw danwariant yn ei flaen yn llawn i gynorthwyo cyflawni strategaeth gyllidebol 2013/14 a diwallu unrhyw ymroddiadau cyfredol. Byddai'n rhaid i wasanaethau ddarparu mwy o fanylion, yn Adroddiad Ariannol i'r Cabinet ym mis Hydref, am sut y defnyddiwyd y balansau a gafodd eu dwyn ymlaen yn 2013/14. Roedd y sefyllfa derfynol yn golygu fod gan y Cyngor £651mil o arian ar gael. Mae hyn yn llwyddiant

sylweddol ac mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau y defnyddir yr arian yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl, a chynigiwyd y byddai hyn yn cyfrannu at yr arian wrth gefn yr oedd ei angen i ariannu'r Cynllun Corfforaethol.

Roedd cynllun uchelgeisiol o fuddsoddiad cyfalaf y Cyngor trwy'r Cynllun Corfforaethol angen swm sylweddol o arian ac mae Cronfa Wrth Gefn y Cynllun Corfforaethol o tua £25m wedi'i sefydlu ar gyfer y diben hwn. Roedd adolygiad o'r arian cyfredol i benderfynu a oedd lefelau balansau a chronfeydd wrth gefn yn rhesymol, ac a ellir symud ychydig o'r arian wrth gefn i Gronfa Wrth Gefn y Cynllun Corfforaethol, wedi'i gwblhau. Roedd yr adolygiad wedi cadarnhau y byddai'n addas symud £6.274m o'r arian wrth gefn cyfredol i Gronfa Wrth Gefn y Cynllun Corfforaethol.

Mae manylion yr holl gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd wedi'u cynnwys fel Atodiad 2, ac mae crynodeb o'r symudiadau a gynigir fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi'u cynnwys fel Atodiad 3. Mae nifer o gyfraniadau eraill i'r cronfeydd wrth gefn a'r darpariaethau, ac ohonynt, wedi paratoi ar eu cyfer yn y cyfrifon ac mae manylion y rhain yn Atodiad 2 a byddai angen i'r Cyngor eu cymeradwyo. Mae'r symudiadau sylweddol i'r cronfeydd wrth gefn nad ydynt eisoes wedi eu hamlygu wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac yn ymwneud â'r canlynol:

- £563mil wedi'i glustnodi i ariannu amddiffyn ysgolion a effeithir gan y newidiadau diweddar i'r fformiwla gyllido
- £185mil wedi ei ychwanegu at y Gronfa Yswiriant Wrth Gefn i gyfrif am y rhwymedigaethau sy'n parhau mewn perthynas ag MMI, cyn yswirwyr yr awdurdodau a oedd yn rhagflaenu Sir Ddinbych, a hawliadau posibl eraill. Ymatebodd Pennaeth Cyllid ac Asedau i gwestiwn gan y Cynghorydd Hugh Irving ac eglurodd y gall y rhwymedigaethau posib a nifer yr hawliadau gynyddu yn y dyfodol
- Mae cyllid wedi symud o'r Gronfa Statws Sengl Wrth Gefn i ddarpariaeth i ariannu hawliadau cyflog cyfartal

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd S.A. Davies yn ymwneud â chronfa wrth gefn Bws Melyn o £101,000, eglurodd Pennaeth Cyllid ac Asedau am gaffaeliad y bws a chytunodd ddarparu adroddiad pellach ynglŷn â'r gronfa Arian At Raid ar gyfer darpariaeth un newydd o bosib yn y dyfodol.

Ymatebodd Pennaeth Cyllid ac Asedau i gwestiwn gan y Cynghorydd M.Ll. Davies ac eglurodd ffigurau oedd yn cael eu cynnwys yn Atodiadau 2 a 3 yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD -*** *fod y Cyngor yn cymeradwyo sefyllfa alldro refeniw terfynol ar gyfer 2012/13 a thriniaeth cronfeydd wrth gefn a balansau a fanylir yn yr adroddiad.*

## 9 FFRAMWAITH ADRODD BLYNYDDOL Y CYNGOR - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Roedd copi o adroddiad gan Reolwr Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar, Strategaeth a Cefnogi, oedd yn darparu hunanasesiad o ofal cymdeithasol yn Sir

Ddinbych a nodi blaenoriaethau gwelliant a nodwyd ar gyfer 2013/14, wedi'i gylchredeg gyda'r rhaglen.

Darparodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (CCMLl) grynodeb ddwys o'r adroddiad ac eglurodd fod pob Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru yn gorfod cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn crynhoi eu barn am effeithiolrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Blaenoriaethau Gwelliant yr Awdurdod. Mae drafft Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012/2013 wedi'i gynnwys fel Atodiad 1. Roedd yr adroddiad yn darparu darlun onest o'r gwasanaethau yn Sir Ddinbych i'r cyhoedd ac yn arddangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau.

Cyfeiriodd y CCMLl at y Gwasanaethau Plant a phwysleisio pwysigrwydd yr adroddiad yn dilyn adroddiadau yn y cyfryngau yn ddiweddar, gan gyfeirio'n benodol at Adroddiadau Jilings a Waterhouse oedd yn ymwneud â cham-drin plant mewn cartrefi plant, a darparodd fanylion mewn perthynas â:-

- Nifer y newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddio sy'n effeithio ar Wasanaethau Plant.
- Argymhellion Waterhouse yn rhan o fframwaith deddfwriaethol Cymru yn awr, a sefydlu Comisiynydd Plant Cymru.
- Gwelliannau yn ymwneud â darpariaeth Gwasanaethau Plant.
- Ymyrraeth gynnar i ddelio â phroblemau a phwysigrwydd gwrando ar blant.
- Gwasanaethau Dwys Cefnogi Teuluoedd
- Ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda Gweithwyr Gofal mewn perthynas â Strategaeth Arwain a Rheoli.
- Hyfforddiant dwys a ddarparwyd i ofalwyr maeth.
- Pwysigrwydd diogelu plant.
- CCyflawni lleoliadau sefydlog i blant, drwy ddarparu cartrefi sefydlog a gofalgar.
- Roedd prif flaenoriaethau'r Gwasanaethau Plant ar gyfer 2013-14 wedi'u cynnwys ar dudalennau 18 ac 19 o'r Adroddiad Blynyddol.

Darparodd y CCMLl fanylion ynglŷn â Gwasanaethau Oedolion ac amlygwyd y meysydd:-

- Cynnydd mewn perthynas â Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Roedd prif oblygiadau'r Bil, oedd yn berthnasol i Gymru, yn ymwneud â Gwasanaethau Oedolion, ond roeddent hefyd yn cynnwys Gwasanaethau Plant.
- Roedd angen newid dull darparu Gwasanaethau Oedolion, yn tarddu o ddisgwyliadau'r cyhoedd gan fod arnynt angen mwy o ddewis a rheolaeth drwy hyrwyddo annibyniaeth.
- Cynnydd yn nifer yr unigolion sydd ag anableddau dysgu a gofalwyr.
- Adborth bositif a dderbyniwyd ynglŷn â darpariaeth Gwasanaethau Ymyrryd, ail-alluogi, gofal ychwanegol a gwaith a wnaed yn y gymuned.
- Cynnydd a wnaed gyda chefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion.
- Cynllunio defnyddio cyllid neilltuol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gwelliannau sydd eu hangen o ran absenoldeb oherwydd salwch yng Ngwasanaethau Plant ac Oedolion.

- Angen datblygu darpariaeth gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ymhellach yn flaenoriaeth bwysig a chynyddol.
- Problemau'n tarddu o gefndir demograffig a'r boblogaeth sy'n heneiddio.

Darparwyd crynodeb o'r pedair elfen ganlynol yn Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor ar gyfer yr Aelodau:-

(i) Hunanasesiad a dadansoddiad manwl o effeithiolrwydd
(ii) Trywydd tystiolaeth
(iii) Integreiddio gyda chynllunio busnes
(iv) Cyhoeddi adroddiad blynyddol

Yn unol â chanllawiau llywodraethu proses ACRF roedd yr Adroddiad Blynyddol wedi'i gynhyrchu ar gyfer y cyhoedd a bydd yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf 2013. Roedd yr asesiad cyffredinol yn arddangos fod Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych wedi llwyddo i wneud gwelliannau mewn perthynas â'r meysydd canlynol yn nhermau perfformiad ac ansawdd dros y flwyddyn ddiwethaf:-

- cefnogi teuluoedd yn llwyddiannus yn gynnar er mwyn atal problemau rhag gwaethygu
- darparu cefnogaeth gynnar a rhoi cymorth i bobl adennill eu hyder a'u gallu i ofalu amdanynt eu hunain e.e. ar ôl syrthio.
- cefnogi pobl i fyw yn annibynnol yn y gymuned a lleihau nifer yr unigolion sy'n mynd i Gartrefi Gofal.
- darparu cartrefi sefydlog a gofalgar i blant sy'n derbyn gofal.
- diogelu plant ac oedolion diamddiffyn yn effeithiol
- gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau ac asiantaethau eraill
- gweithlu sefydlog sy'n cael eu cefnogi gyda'u datblygiad proffesiynol
- arweiniad cryf i yrru'r rhaglen yn ei flaen
- gwell prosesau sicrwydd ansawdd
- rheoli cyllid yn gadarn sydd wedi darparu'r gwasanaethau o fewn y gyllideb

Roedd nifer o heriau ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Busnes a Gwasanaethau Plant ac roedd Atodiad 2 yn darparu trosolwg o'r heriau a'r ymatebion a ddarparwyd. Roedd y blaenoriaethau gwella oedd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol yn cydnabod bod angen parhau i addasu a moderneiddio gwasanaethau er mwyn ymateb i ddisgwyliadau a gofynion Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Llywodraeth Cymru.

Roedd nodweddion allweddol o ymagwedd Sir Ddinbych i ailfodelu, a datblygu patrymau gwasanaeth newydd i wella gwasanaethau lleol yn cynnwys:-

- datblygu gwasanaethau cefnogi teuluoedd gwell gyda gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos i gefnogi teuluoedd
- cryfhau cefnogaeth pontio ar gyfer pobl ifanc gydag anableddau sy'n symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.
- gweithredu model Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Integredig;
- datblygu Gofal Ychwanegol ychwanegol;

- datblygu cynllun tair blynedd i ddatblygu gwasanaethau i gefnogi gofalwyr;
- buddsoddiad ychwanegol mewn ail-alluogi a gweithgareddau i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol heb ofal cymdeithasol parhaus
- lleihau absenoldebau oherwydd salwch, canran uwch o werthusiadau perfformiad wedi eu cwblhau, ac ymateb i gwynion yn gynt

Byddai angen i ddyfodol gwasanaethau Sir Ddinbych edrych yn wahanol a byddai ymroddiad i foderneiddio yn cynnwys cynnydd mewn buddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar er mwyn galluogi dinasyddion i fod yn annibynnol, yn wydn ac yn abl. Bydd angen cefnogi'r ymagwedd gydag amrywiaeth o wasanaethau, gweithgareddau a rhwydweithiau cefnogi y gall pobl gael mynediad atynt yn eu cymunedau eu hunain. Byddai darparu'r rhaglen yn gofyn am ddatrysiadau ar draws y cynghorau/gwasanaethau ac ar draws sectorau gan gynnwys mentrau wedi'u harwain gan y cymunedau.

Nodwyd y byddai ailfodelu a datblygu gwasanaethau ac ymagweddau newydd yn cynnwys addasiadau amhoblogaidd. Fodd bynnag, golyga'r hinsawdd economaidd na ellir osgoi penderfyniadau anodd ac y byddai angen canolbwyntio ar weithredu newidiadau sy'n darparu gwasanaethau effeithiol, cynaliadwy sy'n sicrhau fod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n darparu urddas mewn gofal a chanlyniadau da.

Mae'r blaenoriaethau sy'n cael eu nodi yn yr ACRF yn cyfrannu at flaenoriaeth 4: mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu a gallant fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl ac roedd esiamplau yn yr adroddiad, ynghyd â manylion y broses ymgynghori a gynhaliwyd, sut y byddai costau'n effeithio ar wasanaethau eraill, goblygiadau ariannol a chamau gweithredu i rwystro unrhyw risgiau.

Byddai'r adroddiad yn ffurfio rhan allweddol o werthusiad perfformiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o wasanaethau cymdeithasol Sir Ddinbych, a byddai'r gwerthusiad yn rhoi gwybodaeth ar gyfer asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gyngor Sir Ddinbych fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol.

Eglurodd y Cynghorydd J. Chamberlain-Jones fod y Gwasanaeth Maethu a Mabwysiadu yn perfformio'n dda ond byddai'n rhaid delio â'r mater o lefelau is o staff, gan gyfeirio'n benodol at benodi Swyddog Cyswllt Addysg yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mynegodd bryderon ynglŷn â thoriadau ar dudalen 127 yr adroddiad, a phwysigrwydd cynnal darpariaeth gofal dydd yn y Sir. Eglurodd o ran lefelau absenoldeb oherwydd salwch, fod arolygon staff wedi cynhyrchu canlyniadau positif heb unrhyw feysydd pryder mewn perthynas â lefelau straen. Cafwyd cadarnhad na fyddai toriadau cyllid Gwasanaethau Amddiffyn Oedolion o reidrwydd yn golygu y byddai gwasanaethau oedolion a diogelu amddiffyn oedolion yn cael eu cyfaddawdu gan fod cost darparu tai gofal ychwanegol yn llai na gofal preswyl. Eglurodd y Cynghorydd Chamberlin-Jones fod nifer yr unigolion sy'n mynychu Canolfannau Dydd wedi gostwng gan nad oedd Meddyg Teulu bellach yn gallu atgyfeirio, a chadarnhaodd y CCMLl fod uchafswm cost o £50 yr wythnos ar gyfer darparu gwasanaeth gofal dydd.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd M.L. Holland, cadarnhaodd y CCMLl y byddai lefel darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer unigolion sydd â dementia ac alzheimer's, sydd wedi cynyddu'n sylweddol, yn fater i'r holl asiantaethau ei ystyried. Pwysleisiwyd pwysigrwydd amlygu'r mater yn yr Adroddiad Blynyddol a chyfeiriwyd at strategaeth ranbarthol gofal dementia.

Eglurodd y Cynghorydd J. Butterfield fod darpariaeth llety gwarchod yn dda ond roedd rhai sefyllfaoedd lle yr oedd rhai o'r henoed yn unig a chyfeiriwyd at fodelau eraill o ddelio â darpariaeth gwasanaeth. Amlygodd y Cynghorydd Butterfield bwysigrwydd monitro a gwerthuso'r sefyllfa a gofynnodd am adroddiad yn adolygu canolfannau ail-alluogi i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir ei ystyried. O ran Polisi Plant Sy'n Derbyn Gofal, cadarnhaodd y CCMLl na fyddai plant diamddiffyn yn cael eu symud cyn creu cynllun gofal.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd J.A Davies ynglŷn â phwysigrwydd canfod gofalwyr cudd i sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth, eglurodd y CCMLl fod rhwydwaith dda wedi'i gosod a bod Sir Ddinbych yn ariannu 6 sefydliad ar hyn o bryd i ddarparu cefnogaeth i ofalwyr, gan gynnwys cyllid ar gyfer GOGDdC. Cyfeiriwyd at fesurau gofalwyr newydd, datblygu fframwaith monitro contract rhanbarthol newydd a'r angen am well Gofal Seibiant a gwybodaeth rhyddhau.

Ymatebodd y CCMLl i gwestiynau gan y Cynghorydd M. McCarrol ac eglurodd fod datblygu strategaeth, gyda'r Gwasanaethau Hamdden, ar gyfer byw'n annibynnol, cynllun 3 blynedd i ddatblygu gwasanaethau i gefnogi gofalwyr a gweithredu cynllun gwirfoddoli Sir Ddinbych i roi cyfle i drigolion i fod yn aelodau gweithgar o'u cymunedau yn gamau gweithredu i'w symud ymlaen yn y deuddeg mis nesaf. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd W.Mullen-James, eglurodd y CCMLl fod y gwasanaeth EDT yn un ar y cyd wedi'i leoli yn Wrecsam.

Pwysleisiodd y Cynghorydd J.M. McLellan bwysigrwydd monitro asesiadau gwaith cymdeithasol a chynlluniau sy'n cael eu cyflwyno i'r Llys, a sicrhau datblygiad canolbwyntio ar y teulu fyddai'n sicrhau ymyrraeth gynnar.

Yn ystod y drafodaeth cymeradwyodd y Cynghorydd R.L. Feeley yr adroddiad oedd wedi'i gynhyrchu mewn cyfnod anodd a heriol, ac eglurodd fod Sir Ddinbych wedi ymateb yn gyflym ac yn llawn dychymyg tuag at y dyfodol. Hysbysodd yr Aelodau fod CCMLl Sir Ddinbych yn cael eu parchu a'u hedmygu ledled Cymru.

***PENDERFYNWYD –*** *fod y Cyngor yn cadarnhau:-*

*(a) Hunanasesiad Cyfarwyddwr gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych.*
*(b) Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2013/14, a*
*(c) fod yr adroddiad drafft yn darparu cyfrif clir o berfformiad*

## 10 PENODI I BANEL HEDDLU A THROSEDD

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (PGCD), am benodi Aelod Etholedig i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar

gyfer isafswm o un flwyddyn y Cyngor, wedi’i gylchredeg gyda’r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn darparu manylion aelodaeth y Panel. Roedd Cylch Gorchwyl Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn amodi y byddai pob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn enwebu Aelod neu Aelodau i fod ar y Panel. Roedd y Panel yn cynnwys 10 o Aelodau Etholedig 2 Aelod Cyfetholedig Annibynnol, ac roedd dyraniad seddi i bob Awdurdod yn seiliedig ar gytbwysedd gwleidyddol a dosbarthiad poblogaeth ledled Gogledd Cymru fel cyfanrwydd. Roedd methodoleg *d’hondt* wedi'i ddefnyddio i bennu nifer y seddi y bydd pob Awdurdod Lleol yn eu derbyn ac i ba grŵp(iau) gwleidyddol. Fel Awdurdod cynnal, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu gwasanaethau cefnogi.

Eglurodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam wedi penodi 2 Aelod yr un yn seiliedig ar boblogaeth tra bo Sir Ddinbych ac Ynys Môn wedi penodi 1 Aelod yr un. Roedd maint y prif grwpiau gwleidyddol ym mhob Cyngor yng Ngogledd Cymru yn penderfynu faint o seddi y byddai pob grŵp neu grwpiau yn eu derbyn. Wrth bennu pa Awdurdod oedd yn penodi seddi unigol roedd y Panel yn archwilio faint o seddi oedd gan blaid neu grŵp gwleidyddol ym mhob Awdurdod gyda’i gilydd ac yna’n asesu pa Gyngor neu Gynghorau oedd a’r hawl gorau i gymryd y seddi.

Y llynedd Aelod Grŵp Annibynnol, y Cynghorydd W.E. Cowie oedd cynrychiolydd Sir Ddinbych ar y Panel. Yn dilyn etholiadau mis Mai 2013 yn Ynys Môn, byddai Sir Ddinbych yn derbyn 1 sedd Aelod Llafur. Gallai’r Cyngor benderfynu cyfnod amser y penodiad, er na ddylai fod yn llai na 1 blwyddyn y Cyngor. Gan fod y penodiad arfaethedig yn benodiad neilltuol roedd Grŵp Llafur Sir Ddinbych wedi eu hysbysu o’r materion a godwyd.

Cytunodd yr aelodau i benodi'r Cynghorydd W.N. Tasker fel cynrychiolydd Sir Ddinbych ar Banel Heddlu a Throsedd, a bod cyfnod y penodiad yn parhau nes y gwneir penderfyniad arall gan y Cyngor i benodi i'r Panel.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Tasker waith ardderchog y Cynghorydd W.L. Cowie yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

**PENDERFYNWYD –**fod y Cyngor:-

*(a) yn penodi’r Cynghorydd W.N. Tasker, Aelod y Grŵp Llafur, i Banel Heddlu a Throsedd, a*
*(b) fod cyfnod y penodiad yn parhau nes y gwneir penderfyniad arall gan y Cyngor i benodi i'r Panel.*

**11 GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD**

Roedd copi o adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (PGCD), am botensial gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, wedi’i gylchredeg gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth mewn egwyddor i gyflwyno gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor. Byddai Llywodraeth Cymru yn darparu £1.2 miliwn ar gael fel cyllid grant i Awdurdodau Lleol i'w cynorthwyo gyda chostau gweithredu. Byddai pob Awdurdod yn gymwys i dderbyn grant o £20mil tuag at gostau cyflwyno gweddarlledu.

Byddai gweddarlledu cyfarfodydd yn cynnwys darlledu sain a darluniau cyfarfodydd y Cyngor a gellir eu rhoi ar wefan y Cyngor fel deunydd yr archif. Gallai aelodau'r cyhoedd nad oedd yn gallu mynychu cyfarfodydd eu gwylio ar-lein yn fyw neu ar ddyddiad gwahanol drwy'r archif ar-lein. Byddai gan wylwyr sy'n defnyddio cynnwys yr archif y gallu i ddefnyddio dolenni amser i weld y cynnwys yn ôl yr eitem neu siaradwr.

Roedd Llywodraeth Cymru a CLlLC wedi cynnal cyfarfodydd gyda swyddogion i drafod gweddarlledu a darparwyd enghraifft o system ar waith i'r Aelodau. Roedd cyfleuster ar rai o'r systemau er mwyn galluogi i aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan yn fforymau trafod drwy offer cyfryngau cymdeithasol a lleisio eu barn ar y materion oedd yn cael eu trafod. Ymatebodd y PGCD i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd M.Ll. Davies ac eglurodd weithrediad a darpariaeth cyfleusterau cyfieithu fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Nid oedd gofyniad statudol ar Gynghorau i ddarlledu cyfarfodydd ar y we ond mae ei ddefnydd yn tyfu ar hyn o bryd ac roedd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ystyried ei gyflwyno. Yn ôl cyfraith mae'n rhaid i Gyngor gynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus, yn amodol ar eithrio'r cyhoedd ar gyfer rhai materion cyfrinachol. Mae gan y cyhoedd hawl i fynychu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau eraill ond yn gyffredinol nid oes presenoldeb nifer mewn cyfarfodydd ac mae'r cyfleusterau ar gyfer niferoedd mawr yn gyfyngedig. Efallai nad oedd aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn clywed y trafodaethau yn gallu mynychu oherwydd ymrwymiadau neu anawsterau cludiant, felly byddai gweddarlledu cyfarfodydd yn rhoi mynediad i gyfarfodydd.

Dim ond am flwyddyn y byddai grant Llywodraeth Cymru ar gael heb sicrwydd o unrhyw gyllid yn y dyfodol. Yn ogystal â ffioedd trwyddedau meddalwedd efallai y byddai costau ychwanegol yn ymwneud ag integreiddio'r system gyda'r camerâu a'r meicroffonau sydd yno eisoes. Cynigiwyd y dylid cyfyngu gweddarlledu i ddechrau i gyfnod y gellir ei ariannu gydag arian y grant sydd ar gael, gydag adolygiad i'r dyfodol ar gyfer defnydd pellach. Ymatebodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill i gwestiwn gan y Cynghorydd W.L. Cowie a chytunodd y byddai'n bwysig sicrhau cynaliadwyedd y system cyn ei gyflwyno.

Roedd CET wedi mynegi'r farn y dylid cyflwyno cwestiwn gweddarlledu i'r cyngor benderfynu a ddylid gweddarlledu cyfarfodydd, ac roedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi cytuno y dylid cyflwyno adroddiad i'r aelodaeth ehangach i'w ystyried.

Ymatebodd y PGCD i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd R.L. Feeley a chadarnhaodd y byddai'n rhaid sicrhau cydweddoldeb yr offer cyfredol gydag offer newydd, o bosib drwy ei brofi'n fewnol, cyn cyflwyno gweddarlledu.

***PENDERFYNWYD –** fod y Cyngor yn cytuno mewn egwyddor i weddarlledu cyfarfodydd y Cyngor.*

## 12 RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor, a gafodd ei gylchredeg yn flaenorol, a chytunodd yr Aelodau i gynnwys yr eitemau newydd canlynol yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol:-

***PENDERFYNWYD –**y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor, yn amodol ar yr uchod.*

Daeth y cyfarfod i ben am 2:05pm.